



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2026

ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi data bwlch cyflog rhwng y rhywiau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2026, yn unol â Rheoliadau (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) Deddf Cydraddoldeb 2010.

Y diffiniad a ddefnyddir ar gyfer adrodd

At bwrpas adrodd yn statudol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, mae ein cyfrifiadau'n seiliedig ar y rhyw a gofnodwyd ar gyfer gweithwyr yng nghofnodion AD/cyflogres y Gwasanaeth ar y dyddiad penodol.

Beth yw bylchau cyflog?

Mae bylchau cyflog yn fesur a ddefnyddir i asesu'r gwahaniaeth mewn enillion cyfartalog rhwng gwahanol grwpiau o bobl mewn sefydliad, er enghraifft dynion a menywod. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn mesur y bwlch rhwng y gyfradd fesul awr i fenywod a'r gyfradd fesul awr i ddynion.

Proffil ein gweithlu

Ar 31 Mawrth 2026, roeddem yn cyflogi 895 o weithwyr ar draws 989 o rolau (gan gynnwys rhai gweithwyr sydd â sawl rôl):

Cyfanswm y staff:	Menywod:	Dynion:
989	210 (21.2%)	779 (78.8%)

Ein bylchau cyflog rhwng y rhywiau cymedrig a chanolrifol

Ein bwlch cyflog CYMEDRIG rhwng y rhywiau oedd 7.32%		Ein bwlch cyflog CANOLRIFOL rhwng y rhywiau oedd 11.70%	
Mae'r CYMEDR yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog fesul awr dynion a menywod.		Y CANOLRIF yw'r canolbwynt yn yr ystod cyflog.	
Ein cyflog cyfartalog CYMEDRIG yr awr oedd:		Ein cyflog cyfartalog CANOLRIFOL yr awr oedd:	
Menywod £19.15	Dynion £20.66	Menywod £17.86	Dynion £20.22
Wrth gymharu cyflogau CYMEDRIG yr awr, mae dynion yn gwneud £1.08 am bob £1 y mae menywod yn ei wneud.		Wrth gymharu cyflogau CANOLRIFOL yr awr, mae dynion yn gwneud £1.13 am bob £1 y mae menywod yn ei wneud.	

Ein bandiau cyflog fesul chwartel

Cyfrifir y chwarteli hyn drwy restru cyflogau dynion a menywod o'r isaf i'r uchaf a rhannu'r rhestr yn bedwar segment cyfartal, a elwir yn chwarteli.

Dyma gyfran y gweithwyr gwrywaidd a benywaidd yn y chwarteli band cyflog isaf, canol isaf, canol uchaf ac uchaf:

17%	83%	14%	86%	23%	77%	34%	66%
Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw
Cyflogau'r chwartel isaf hyd at £16.85 yr awr		Cyflogau chwartel canol isaf £16.86 yr awr - £19.89 yr awr		Cyflogau chwartel canol uchaf £19.90 yr awr - £22.55 yr awr		Cyflogau chwartel uchaf £22.56 yr awr ac uwch	

Ein bylchau cyflog rhwng y rhywiau cymedrig a chanolrifol ar gyfer taliadau bonws

Mae'r Bylchau Cyflog Bonws yn adlewyrchu'r taliadau Datblygu i Gymhwysedd (DTC) a wneir i'r holl ddiffoddwyr tân cymwys fel rhan o'u telerau ac amodau cyflogaeth a drafodwyd yn genedlaethol.

Ein bwlch cyflog bonws (DTC) CYMEDRIG rhwng y rhywiau oedd: -9.23%	Ein bwlch cyflog bonws (DTC) CANOLRIFOL rhwng y rhywiau oedd: 0%	Cyfran y staff a gafodd daliad bonws (DTC) oedd: Menywod 13.9% Dynion 26.3%
Yn cymharu'r taliad DTC cyfartalog a gafodd dynion a menywod cymwys yn ystod y cyfnod 12 mis perthnasol.	Yn cymharu'r taliad DTC canol a gafodd dynion a menywod cymwys pan fydd yr holl daliadau wedi'u rhestru o'r isaf i'r uchaf.	Yn cymharu canran y dynion a'r menywod a gafodd daliad DTC yn ystod y cyfnod adrodd.

Beth mae ein canlyniadau yn ei olygu?

Mae ein bylchau cyflog rhwng y rhywiau cymedrig a chanolrifol yn is na chyfartaledd y DU*:

- Bwlch canolrifol y DU (pob gweithiwr): tua **12.8%**
- • Bwlch cymedrig y DU (pob gweithiwr): tua **13%**

Mae hyn yn golygu bod y gwahaniaeth mewn cyflog yn llai yn ein Gwasanaeth nag ar draws y DU.

Fodd bynnag, mae bwlch yn dal i fodoli. Byddwn yn parhau i gymryd camau i'w leihau.

*Arolwg Blynnyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Oriau ac Enillion, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025. Mae'r ffigurau cenedlaethol hyn yn seiliedig ar rolau rhan-amser ac amser-llawn, gan ddarparu cymhariaeth gyson â'n data ein hunain.

Mae ein **gwybodaeth chwarterl am gyflog** yn dangos bod menywod yn cael eu tangynrychioli ar draws pob lefel cyflog. Fodd bynnag, mae eu cynrychiolaeth yn cynyddu yn y chwarterlau cyflog uwch. Mae hyn yn arwydd cadarnhaol. Mae'n dangos bod mwy o fenywod yn symud i rolau uwch. Fodd bynnag, dynion yw'r mwyafrif o hyd ar bob lefel.

Mae ein taliadau Datblygu i Gymhwysedd (DTC) yn cael eu cytuno yn genedlaethol ac yn cael eu talu'n gyfartal waeth beth fo'r rhywedd. Er bod cyfran uwch o ddynion wedi cael taliadau DTC oherwydd bod ganddynt fwy o gynrychiolaeth mewn rolau diffoddwyr tân, cafodd nifer llai o fenywod daliadau DTC gwerth uwch, a oedd yn cael mwy o ddylanwad ar y taliad cyfartalog a gafodd menywod.

Arweiniodd hyn at fwllch cyflog bonws cymedrig o -9.23% o blaid menywod, tra bod y bwlch cyflog bonws canolrifol yn parhau i fod yn 0%. Mae hyn yn dangos bod y gwahaniaeth yn cael ei yrru gan gyfansoddiad y gweithlu a dosbarthiad taliadau DTC, yn hytrach nag unrhyw wahaniaeth mewn trefniadau cyflog, arferion cyflog neu driniaeth.

Beth mae ein canlyniadau'n ei ddangos?

- Strwythur a chyfansoddiad y gweithlu sy'n dylanwadu'n bennaf ar ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
- Mae mwy o ddynion yn gweithio mewn rolau gweithredol ar gyflog uwch, sy'n cynyddu'r cyflog cyfartalog cyffredinol i ddynion.
- Nid yw hyn yn golygu bod dynion a menywod yn cael eu talu'n wahanol am wneud yr un swydd.
- Er bod mwy o fenywod yn gweithio mewn rolau uwch, maent yn parhau i gael eu tangynrychioli ar draws y gweithlu.

Ein hymrwymiad a'n camau nesaf

Byddwn yn parhau i gymryd camau i leihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau trwy:

- Hyrwyddo rolau diffoddwyr tân amser cyflawn ac ar alwad ymysg menywod trwy hysbysebu wedi'i dargedu a diwrnodau profiad
- Monitro pwy sy'n cwblhau rhaglen Datblygu Cymhwysedd Diffoddwyr Tân yn ôl rhywedd
- Archwilio rhwystrau i ddyrchafiad i ddiffoddwyr tân presennol
- Gwella llwybrau datblygu a chynnydd ar gyfer staff corfforaethol
- Cryfhau ein dull o ymdrin â bwllo, aflonyddu, dioddefiaeth ac aflonyddu gan drydydd parti i gefnogi diwylliant cynhwysol
- Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y menopos i gefnogi staff benywaidd yn well
- Cynyddu gwelededd modelau rôl benywaidd mewn digwyddiadau cyhoeddus a gweithgareddau allgymorth
- Parhau i dyfu ein rhwydwaith Menywod yn y Gwasanaeth Tân a chefnogi mentora, cyngor a chymorth gan gymheiriaid

Crynodeb

Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn is na chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn faes ffocws.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn adlewyrchiad o strwythur a chyfansoddiad y gweithlu yn bennaf, gyda dynion ar hyn o bryd yn cael eu cynrychioli'n fwy mewn rolau sy'n ennill cyflog uwch. Byddwn yn parhau i wella cynrychiolaeth, cefnogi cynnydd a sicrhau cyfleoedd teg i bawb.

Os oes angen yr adroddiad hwn arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, cysylltwch â ni drwy e-bost: enquiries@tangogleddcymru.llyw.cymru neu Ffôn: 01745 535250.



**Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service**